# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhaglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian i ddechrau yn 2005-06

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Medi 2004**

# Cynnwys

Cynnwys ....................................................................................................................1
Rhaglen archwiliadau gwerth am arian i ddechrau yn 2005-06 ................................................1
Cyflwyniad ..............................................................................................................1
Gwaith Gwerth am Arian ar y gweill ...................................................................1
Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian .............................................................3
Cost rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol ............7
Casgliad ..................................................................................................................7
Atodiad A: Cefndir ar bynciau posib ar gyfer archwiliadau gwerth am arian..........................8
Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol ..................................................................8
Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ....................................................................9
Addysg a Hyfforddiant ...........................................................................................10
Datblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth..................................................................11
Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ....................................................................12
Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg ...............................................................13
Gweinyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ..............13
Astudiaethau trawsbynciol .....................................................................................14
Archwiliadau traws-sector cynhwysfawr .................................................................15
Atodiad B: Gwaith a chynlluniau'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru................................17
Gwaith sydd ar y gweill.............................................................................................17
Gwaith a fwriedir ei ddechrau cyn Ebrill 2005 .........................................................18
Cynllunio ar gyfer gwaith i ddechrau ar ôl 1 Ebrill 2005 ..........................................18

# Rhaglen archwiliadau gwerth am arian i ddechrau yn 2005-06

## Cyflwyniad

1. Mae'r memorandwm hwn yn manylu ar raglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian i ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf, 2005-06 - blwyddyn gyntaf y Swyddfa Archwilio Cymru newydd. Mae'n weddus fy mod yn ymgynghori â'r Pwyllgor Archwilio parthed y cynlluniau hyn, ynghyd ag ystyriaeth y Pwyllgor o'm Brasamcan am y flwyddyn honno, ac fel yn y blynyddoedd blaenorol, byddwn yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar fy nghynigion cyn gwneud y rhaglen yn derfynol.

2. Dylai'r cynlluniau hyn sicrhau parhad wrth i staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio i Gymru ddod ynghyd i greu'r Swyddfa Archwilio Cymru newydd. Maent yn canolbwyntio ar y gwaith i'w wneud gan y Swyddfa newydd a fydd yn darparu llawer o'r deunydd a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn mynd â ffrwyth gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i'r sefydliad newydd. Felly, er mwyn rhoi golwg gyffredinol i'r pwyllgor o amrediad llawn gwaith archwilio gwerth am arian a pherfformiad Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â manylu ar waith gwerth am arian ar y gweill a chynlluniau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru; mae Atodiad B yn manylu ar waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd a chynlluniau'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru, a fydd yn ffurfio rhan sylweddol o waith y Swyddfa newydd.

### Gwaith Gwerth am Arian ar y gweill

3. Heddiw bydd y Pwyllgor Archwilio wedi pwyso a mesur adroddiad byr ar yr hyn mae'r Pwyllgor wedi ei gyflawni ers datganoli drwy eu harchwiliadau gwerth am arian ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff perthnasol. Mae'r adroddiad hwnnw yn rhoi cyd-destun defnyddiol i'r Memorandwm hwn drwy fanylu ar yr adroddiadau yr wyf i, gyda chefnogaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi eu cyflenwi dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â nifer o archwiliadau eraill, sydd mewn cyflwr datblygiad amrywiol. Bydd y gwaith hwn sydd ar y gweill yn ffurfio sylfaen ar gyfer sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor sydd ar ddigwydd, hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol hon a thu draw. Nodir yr archwiliadau y gweithir arnynt ar hyn o bryd, ynghyd â'u cynnydd ym mis Medi 2004, yn Nhabl 1, dros y dudalen.

**Tabl 1: Archwiliadau gwerth am arian sydd yn mynd rhagddynt neu ar fin dechrau.**

| *Archwiliad* | *Cynnydd (ym mis Medi 2004)* |
|---|---|
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru- rheoleiddio rheoli gwastraff | Clirio ffeithiau |
| Amserau aros yn y Gwasanaeth Iechyd | Clirio ffeithiau |
| Caffael yn y sector addysg uwch | Clirio ffeithiau |
| Mynd i'r afael â phroblem trais yn y Gwasanaeth Iechyd | Drafftio adroddiad ar y gweill |
| Rheoli gwelliannau priffyrdd a thraffyrdd | Gwerthuso canfyddiadau ar y gweill |
| Rheoli ynni a dŵr addysg uwch | Gwaith maes ar y gweill |
| Cronfa Ysgolion Gwell ( a adwaenwyd gynt fel Grantiau i Addysg a Hyfforddiant mewn Swydd) | Gwaith maes ar y gweill |
| Rheoli absenoldeb salwch addysg bellach | Gwaith maes ar y gweill |
| Llanarthne: Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol | Gwaith maes ar y gweill |
| Caffael gwasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd | Gwaith maes ar y gweill |
| Cefnogaeth i LG | Gwaith maes ar y gweill |
| Gofal symudol a llawdriniaeth dydd | Gwaith rhagarweiniol ar y gweill |
| Merlin: rhaglen newydd Gwella Technoleg Gwybodaeth a Busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru | Gwaith rhagarweiniol ar y gweill |
| Dilyniant Cyngor y Celfyddydau | I'w ddechrau cyn diwedd 2004-05 |
| Gwastraff clinigol y Gwasanaeth Iechyd | I'w ddechrau cyn diwedd 2004-05 |
| Tir Gofal (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) | I'w ddechrau cyn diwedd 2004-05 |
| Rheoli absenoldeb salwch yn Llywodraeth Cynulliad Cymru | I'w ddechrau cyn diwedd 2004-05 |

4. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried o leiaf ddau adroddiad y flwyddyn yn deillio o'm gwaith archwilio ariannol: fy adroddiad blynyddol ar gyllid Gwasanaeth Iechyd Cymru, a'm hadroddiad cyffredinol ar faterion o ddiddordeb ehangach yn deillio o waith archwilio ariannol ar draws yr holl faes archwilio. Er nad yw'n rhan o'r rhaglen archwiliad gwerth am arian, dylai'r Swyddfa Archwilio Cymru newydd allu parhau i gynhyrchu adroddiadau ar ganlyniadau gwaith archwilio ariannol yn 2005-06, er mwyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio.

## Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian

5. Mae Tabl 2 yn rhestru fy mhynciau arfaethedig ar gyfer archwiliad, i ddechrau yn 2005-06; mae crynodeb byr o bob un yn Atodiad A. Ni fydd gwaith ar rai o'r prosiectau hyn yn dechrau tan yn hwyrach yn 2005-06 ac efallai na fydd adroddiadau ar yr archwiliadau hynny yn cael eu cyhoeddi tan y flwyddyn ddilynol. Bydd y trefnu gwaith hyn yn darparu llif cyson o ddeunydd i'r Pwyllgor Archwilio i'w ystyried.

6. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid wyf wedi ceisio manylu ar gynigion archwiliadau gwerth am arian a fyddai o bosib yn cael eu gwneud mewn blynyddoedd i ddod, hynny yw 2006-07 a thu hwnt. Mae cyfrifoldebau a gweithrediadau statudol newydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig cyfle sylweddol i dorri tir newydd gydag ymarferion archwilio ac arolygu, megis y potensial am fwy o archwiliadau ar draws ffiniau sefydliadol. Bydd y Swyddfa Archwilio Cymru newydd am ystyried oblygiadau llawn datblygu eu cynlluniau ar gyfer gweithgaredd archwilio ac arolygu yn y dyfodol yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, ni fyddai'n ddoeth cynllunio tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf, er bod y rhaglen arfaethedig yn crybwyll materion hynny sydd yn cael eu cadw mewn golwg ar gyfer blynyddoedd sydd i ddod.

7. Mae'r rhaglen arfaethedig yn Nhabl 2 yn ceisio sicrhau, drwy gymryd un flwyddyn gydag un arall, bod gan y Pwyllgor gyfle i gymryd tystiolaeth ar bob categori o wariant y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol amdano. Ymhellach, fel yn y blynyddoedd blaenorol, er mwyn ceisio sicrhau ymdriniaeth systematig sicr o wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru, rwyf wedi dadansoddi'r maes archwilio drwy gategori eang o ganolbwynt archwilio mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau, a hefyd drwy ddeg amcan, neu faes gweithredu Llywodraeth y Cynulliad, fel yr amlinellwyd yn ei chynllun strategol cyfredol, *Cynllun i Gymru.* Bydd y cynigion yn darparu lefel debyg o edrych yn dra gofalus ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff perthnasol i'r hyn a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

8. Er mwyn gwneud defnydd cynnar o'r manteision a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth newydd, rwyf wedi cynnwys cynigion ar gyfer dau archwiliad cynhwysfawr traws-sector. O 1 Ebrill 2005, yn ogystal â gallu defnyddio grym i archwilio Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i chyrff perthnasol, bydd gan yr Archwilydd Cyffredinol y grym i archwilio llywodraeth leol a chyrff unigol y Gwasanaeth Iechyd. Gan y gellir defnyddio'r amrediad cyfan o rym ar gyfer yr un archwiliad, gellir edrych yn fanwl ar raglenni a gweithgareddau sy'n rhychwantu'r sectorau gwahanol hyn. Yn ogystal, dylai creu Swyddfa Archwilio Cymru gynnwys a chydlynu'r gallu i wneud archwiliadau - dylai'r cyfan fod yn fwy na chyfanswm y rhannau. Yn fwy arwyddocaol, dylai'r gallu i "mandadu" gwaith archwilio sylweddol a chasglu data gan archwilwyr wedi eu penodi mewn cyrff lleol, gynorthwyo i sicrhau archwiliad trylwyr a chynhwysfawr o raglenni mawr a gweithgareddau helaeth sydd yn rhychwantu Llywodraeth Cynulliad Cymru a sectorau

llywodraeth leol. Bydd yr archwiliadau hyn yn fwy eang eu cwmpas nag a fu'n ymarferol o'r blaen.

9. Y ddau gynnig yn y categori astudiaeth newydd hwn ydy 'Gweithredu Wanless' a 'Rheoli ac Effeithiolrwydd Gweithlu yn y Sector Gyhoeddus.'Yn ogystal â chynnwys GIG Cymru byddai cynnig "Gweithredu Wanless" yn ymdrin â Gwasanaethau Cymdeithasol a byddai'n archwilio cydlyniad gwasanaethau rhwng y GIG a'r llywodraeth leol. Felly, byddai'n gofyn am ddefnyddio grym newydd Llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol. Byddai'r archwiliad hwn, hefyd yn fwy traws-sectoraidd, yn y modd y byddai'n cyplysu archwiliad o weithgaredd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda gwaith archwilio wedi ei fandadu a wnaed o fewn cyrff GIG lleol. O fewn cynnig y sector cyhoeddus byddai rheolwyr y gweithlu yn edrych ar weithgareddau cyffredin o ran rheolwyr y gweithlu , megis adnabod bylchau sgiliau ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyrff a Noddir gan y Cynulliad, sectorau GIG lleol a llywodraeth leol. Byddai rhaid defnyddio eto amrywiaeth o rymoedd archwilio a mynediad, gan gynnwys mandadu gwaith cyrff lleol.

10. Byddai nifer o'r cynigion eraill yn elwa o ddefnyddio grymoedd astudiaethau lleol yn ogystal â grymoedd yn gysylltiedig â Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis Mynediad Cyhoeddus i Gefn Gwlad ac Ariannu Cyfalaf Ysgolion. Ond gan eu bod wedi eu bwriadu i fod yn fwy cyfyng eu terfyniadau a'u graddfa, ac na fyddent yn gwbl ddibynnol ar waith archwilio wedi ei fandadu, nid ydynt wedi eu cynnwys gyda'r archwiliadau cynhwysfawr traws-sectoraidd. Dyma'r rheswm dros wahaniaethu rhwng archwiliadau trawsbynciol ac archwiliadau traws-sector cynhwysfawr.

11. Tra bod yr archwiliadau traws-sector cynhwysfawr o ran diffiniad yn eang eu terfyniadau, yr wyf wedi ceisio sicrhau bod cynigion o fewn gweddill y rhaglen yn parhau i ddarparu cydbwysedd rhwng astudiaeth eithaf cynhwysfawr, megis 'Recriwtio a Chadw o fewn y Gwasanaeth Iechyd', ac archwiliadau llai, sydd, serch hynny, yn cynnig deunydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, megis 'Caffael Adeilad Newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'. Ystyriaf fod amrediad maint yr archwiliadau yn angenrheidiol i sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu derbyn adroddiadau ystyrlon ar holl amrediad gweithgareddau Llywodraeth y Cynulliad. Mae hefyd o gymorth i wneud y rhaglen o archwiliadau yn fforddiadwy.

12. Y tri phwnc sydd dan sylw ac sy'n haeddu eu crybwyll yn arbennig ydy'r ymateb gan y sector cyhoeddus yng Nghymru i adolygiad Gershon, integreiddio tri Chorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a defnydd Llywodraeth y Cynulliad o'i hadolygiad gwariant. Bydd y rhain yn cael eu hystyried rhwng nawr a diwedd mis Mawrth 2005, os nad tu hwnt i hynny, a gwneir cynigion am archwiliadau pan fydd oblygiadau'r rhain yn fwy eglur. Y mae'n bosib felly y bydd y rhaglen derfynol y byddaf yn ei chyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn cynnwys cynlluniau i archwilio un neu ragor o'r meysydd hyn.

**Tabl 2: Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian yn ôl maes cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. (gweler hefyd Atodiad A)**

***Allwedd:***

Categorïau bras **canolbwynt yr archwiliad**:

| | |
|---|---|
| A | cyflawni rhaglenni a gwasanaethau |
| B | rheoli asedau |
| C | caffael asedau a gwasanaethau |
| D | adleoli a gwaredu asedau ac adnoddau |

Deg **amcan** neu faes gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru:

| | |
|---|---|
| 1 | datblygu'r wlad sy'n dysgu |
| 2 | gwella gwasanaethau iechyd a gofal |
| 3 | economi fodern |
| 4 | creu cymunedau cadarn |
| 5 | ble rydym ni'n byw |
| 6 | cefnogi Cymru wledig |
| 7 | hunaniaeth |
| 8 | llywodraeth fodern (natur agored ac effeithiolrwydd a.y.b.) |
| 9 | hyrwyddo TGCh |
| 10 | gweithredu (rheoli perfformiad) |

| *Maes Gwario*<br>**(Dangosir y cynigion a ffafrir ar hyn o bryd mewn print trwm)** | ***Cyllideb fynegol 2005-06 £m*** | ***Canolbwynt yr archwiliad*** | ***Amcan y Cynulliad*** |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU IECHYD A CHYMDEITHASOL** | 4,612 | | |
| *Dau o:* | | | |
| **Recriwtio a Chadw yn y GIG** | | B | 2 |
| **Deintyddion** | | AC | 2 |
| Haint a Gafwyd o'r Ysbyty | | A | 2 |
| (Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw'r TG Hysbysu Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cof ar gyfer archwiliad posibl mewn blynyddoedd i ddod, er byddai archwiliad yn 2005-06 yn rhy gynnar). | | | |
| **AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD** | 447 | | |
| *Un o:* | | | |
| **Mynediad Cyhoeddus i Gefn Gwlad** | | A | 3,5,6 |
| Cynllun Adfer Cefn Gwlad | | A | 5,6 |
| **ADDYSG A HYFFORDDIANT** | 1,280 | | |
| *Un o:* | | | 1 |
| **Gwella cyfranogiad a chwblhad mewn addysg uwch** | | A | 1 |
| Ariannu cyfalaf ysgolion | | C | 1 |
| Iechyd ariannol sefydliadau addysg bellach | | AC | 1 |
| (Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon mewn cof ar gyfer archwiliad posibl yn y blynyddoedd i ddod, er byddai archwiliad yn 2005-06 yn rhy gynnar) | | | |

| *Maes Gwario*<br>**(Dangosir y cynigion a ffafrir ar hyn o bryd mewn print trwm)** | ***Cyllideb fynegol 2005-06 £m*** | ***Canolbwynt yr archwiliad*** | ***Amcan y Cynulliad*** |
|---|---|---|---|
| **DATBLYGIAD ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH** | 1,382 | | |
| *Un o:* | | | |
| **Cymorth Dewisol Rhanbarthol (CDR) a grantiau datblygu economaidd eraill** | | A | 3 |
| Bwrdd Croeso Cymru : gweithgaredd farchnata | | AC | 3 |
| Rheoli traffig | | AC | 3,5 |
| (Cedwir datblygiad newydd busnes a manteisio'n llawn ar wybodaeth mewn cof ar gyfer archwiliad posibl mewn blynyddoedd i ddod, ond byddai archwiliad yn 2005-06 yn rhy gynnar). | | | |
| **LLYWODRAETH LEOL** | 3,372 | | |
| Ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd yn ôl yn benodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar lywodraeth leol | | | |
| **CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO** | 448 | | |
| *Un o:* | | | |
| **Rhaglen grantiau Digartrefedd a Phobl Heb Do Uwch eu Pennau** | | A | 4 |
| Cefnogi Pobl | | A | 4 |
| (Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddion mewn cof ar gyfer archwiliad posibl mewn blynyddoedd i ddod, er byddai archwiliad yn 2005-06 yn anamserol). | | | |
| **DIWYLLIANT, CHWARAEON A'R IAITH GYMRAEG** | 127 | | |
| *Un o:* | | | |
| **Cynyddu gweithgaredd corfforol a'i fuddiannau** | | A | 2,7 |
| Bodlonrwydd cwsmer amgueddfa | | A | 7,8,10 |
| Canolfan Mileniwm Cymru | | AC | 7 |
| **GWEINYDDIAETH Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL A LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU** | 178 | | |
| *Un o:* | | | |
| **Caffael adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | | C | 8 |
| Effeithiolrwydd ynni yn ystadau'r Llywodraeth a Chyrff a noddir gan y Cynulliad | | AC | 3,5 |
| **ASTUDIAETHAU CROESTORIAD*** | Gwariant ddim yn benodol ar gyfer un portffolio | | |
| *Un o:* | | | |
| **Gwasanaethau i Blant** | | A | 1,2,4 |
| Datblygu Cynaliadwy- gwneud penderfyniadau a mesur perfformiad | | Pob un | Pob un |

*Dalier Sylw: Mae gan nifer o'r astudiaethau sy'n gysylltiedig â meysydd gwario penodol, elfennau trawsbynciol iddynt. Fodd bynnag, lle ceir polisi eglur a maes arwain gwario, megis, er enghraifft, gyda Chynyddu Gweithgaredd Corfforol a'i Fuddiannau, er eglurder, cyflwynir y fath astudiaethau yn y maes hwnnw.

| **ASTUDIAETHAU WEDI EU RHANNU- Archwiliadau traws-sectoraidd cynhwysfawr wedi eu hwyluso gan rymoedd newydd Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>(Mae'r archwiliadau hyn yn ddibynnol ar ymgynghoriad gydag eraill sydd â diddordeb, yn ogystal â'r Pwyllgor Archwilio a gall arwain at adroddiadau ar wahân ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ac eraill â diddordeb) | Nid yw gwariant yn gyfyngedig i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac nid yw'n benodol ar gyfer un portffolio | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu Wanless** | | A | 2,10 |
| **Rheoli ac Effeithiolrwydd Gweithlu yn y Gwasanaethau Cyhoeddus** | | A | 2,8,10 |

## Cost rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol

13. Rwyf yn cyflwyno Brasamcan i'r Pwyllgor ar gyfer 2005-06 ynghyd â'r memorandwm hwn. Mae'r rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2005-06 yn gydnaws â'r lefel ariannu am waith gwerth am arian sy'n berthnasol i'r Cynulliad yn y Brasamcan hwnnw. Rhagwelaf yr ariennir elfen o astudiaethau traws-sector gan ffioedd i gyrff lleol yn gyfatebol i sylw ac adrodd yn ôl diweddarach o'r gwaith hwn.

14. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi esbonio yn y gorffennol ni ddylai'r cynigion hyn fod yn haearnaidd. Dylai'r pwyllgor ddisgwyl y bydd fy olynydd, yn parhau i ymateb, ble bynnag fo'n bosib, i ddatblygiadau sylweddol na ellid eu rhagweld, gan addasu'r rhaglen lle bo angen er mwyn cadw o fewn y gyllideb a nodwyd o fewn y Brasamcan.

## Casgliad

15. Estynnaf wahoddiad i'r Pwyllgor i nodi pa bynciau sydd o ddiddordeb neilltuol i Aelodau ac i gynnig unrhyw bynciau eraill nad ydynt ymysg y rhai a restrwyd er mwyn eu cynnwys, o bosib, yn y rhaglen ar gyfer 2005-06.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*Medi 2004*

# Atodiad A:  Cefndir ar bynciau posib ar gyfer archwiliadau gwerth am arian

## Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol

**Recriwtio a Chadw o fewn y GIG**

Mae'r GIG yn cyflogi oddeutu 90,000 o staff, a gwerir bron i ddwy ran o dair o holl gyllideb iechyd ar gyflog.  Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu fframwaith ar gyfer recriwtio a chadw.  Fodd bynnag, mae'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Wanless) yn awgrymu y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu eu mecanwaith cynllunio'r gweithlu er mwyn mynd i'r afael â phrinder staff mewn arbenigedd penodol, gwella cadw staff a lleihau'r defnydd o staff banc neu asiantaeth, ar gost o £38 miliwn yn 2002-03.  Mae pob ymddiriedolaeth y GIG wedi datblygu strategaeth recriwtio a chadw er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â recriwtio a chadw.  Yn y tymor byr i ganolig, eir ati i leihau'r broblem: recriwtio o dramor, cyrsiau "dychwelyd i weithio" i nyrsys a chynyddu hyblygrwydd bod yn gyflogedig.  Er mis Chwefror 2002, rhoddwyd hwb i recriwtio a chadw Meddygon Teulu, gyda "gwobrau aur" ac amrywiaeth o grantiau. Daeth Cyfarwyddiad Amser Gweithio Ewropeaidd i rym yn Awst 2004, gan beri problemau wrth sicrhau bod digon o feddygon iau ar gael i gynnal lefelau diogel o ofal claf mewn arbenigedd dwys.  Gallai'r astudiaeth edrych ar ba mor dda y mae ymddiriedolaethau a chyrff eraill y GIG yn datblygu gyda'u strategaethau a pha fath o elw mae'r ariannu ychwanegol yn ei gyflawni.  Un ffordd fyddai drwy ganolbwyntio ar grŵp proffesiynol penodol lle ceir y problemau recriwtio a chadw mwyaf difrifol. Byddai'r astudiaeth yn ystyried yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Comisiwn Archwilio ar recriwtio a chadw ar draws y sector gyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2002.

**Deintyddion**

Mae prinder deintyddion y Gwasanaeth Iechyd mewn sawl ardal yng Nghymru.  Mae arian ar gael ers 1995 yn benodol er mwyn denu mwy o ddeintyddion, ond mae problemau'n parhau, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.  Ychydig dros 50 y cant o'r boblogaeth sydd wedi cofrestru gyda deintydd y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.  Fodd bynnag, yng Ngheredigion mae'n 28 y cant, yng Ngwynedd 32 y cant ac yn Sir Benfro 40 y cant. Mae'r Cynulliad wedi datblygu polisïau i ddiwygio gwasanaethau gofal cyntaf deintyddol i gyd-fynd â llywodraeth y D.U.  Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn ymgymryd â chyllid o £75 miliwn er mwyn ariannu a chomisiynu gwasanaethau deintyddol y GIG lleol, ac, ym mis Mai 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai £5.3 miliwn ar gael yn ychwanegol dros dair blynedd er mwyn gwella deintydda y GIG.  Bydd trefniadau cytundebol deintyddol newydd yn dechrau yng Nghymru ym mis Hydref 2005.  Bydd yr astudiaeth hon yn nodi'r risgiau y bydd yn rhaid eu rheoli os oes cynnydd drwyddi draw i fod - nid yn unig drwy sicrhau mynediad addas i wasanaethau deintyddol y

GIG, ond hefyd drwy sicrhau gwasanaeth o safon lle mae mynediad ar gael. Bydd elfen o'r archwiliad hwn felly yn adolygiad o safon dda gwasanaeth deintyddol, a gall gynnwys arolwg o gleifion.

**Haint a Gafwyd mewn Ysbyty**

Mae ymchwil gan yr Asiantaeth Diogelwch Iechyd yn nodi bod gorddefnydd o welyau a thrwygyrch i ymdrin â rhestrau aros, ynghyd â phrinder staff ac arferion hylendid gwael yn golygu bod mwy o gleifion yn dal heintiau tra yn yr ysbyty yn Lloegr. Mae un mewn 10 claf bellach yn dal haint o'r fath, ac mae'r mwyaf difrifol, yn achosion cynyddol cyffredin o farwolaeth. Er enghraifft, mae marwolaeth oherwydd Staphylococcus Aureus, ymwrthodol i methicilin (MRSA) wedi codi gan ffactor o 16 rhwng 1993 a 2002. Mae'r Goruchwylydd ar Archwilydd Cyffredinol wedi cynhyrchu adroddiadau ar haint a gafwyd mewn ysbytai yn Lloegr yn 1999 a 2004, gan nodi graddfa a chost y broblem, a'r cynnydd cyfyngedig a wneir wrth fynd i'r afael a hi.

Ynghyd â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a ffurfiwyd yn ddiweddar, mae Adran y GIG Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu gofynion a systemau cadw golwg ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ac yn darparu cefnogaeth arall i reoli haint. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio'r sefyllfa yng Nghymru ac yn defnyddio adroddiad y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn cymharu â Lloegr. Byddai'n benodol yn ceisio amcangyfrif y gost o ddal haint yng Nghymru ac asesu os oes digon o wrth fesurau yn cael eu cymryd, gan gynnwys gweithredu diogel ar y cyfan i drwygyrch ysbyty. Dylai hefyd ddarparu dilyniant i elfennau o astudiaeth glanhau ysbyty Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Mynediad cyhoeddus i gefn gwlad**

Amcangyfrifir bod gwerth blynyddol twristiaeth cerdded yng Nghymru yn £550 miliwn, felly mae gwella mynediad i gefn gwlad nid yn unig yn fater o gydymffurfio â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW), mae hefyd yn fodd o gryfhau'r economi wledig. Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru rôl bwysig wrth weithredu'r ddeddfwriaeth, gan fod ganddo gyfrifoldeb statudol i gadw mynediadau cyhoeddus ar agor. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor Cefn Gwlad reolaeth uniongyrchol, ac mae'r gweithredu yn ddibynnol iawn ar weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cynulliad yn darparu pob awdurdod lleol gyda grantiau sylweddol (gyda'i gilydd tua £2.4) ac eto, mae nifer o lwybrau mynediad cyhoeddus yn parhau i fod ar gau. Ymddengys fod rhai awdurdodau lleol yn fwy llwyddiannus na'i gilydd wrth weithredu'r Ddeddf, gyda Chymru ar y cyfan, yn gwneud cynnydd arafach na Lloegr. Mae adroddiadau diweddar wedi peri gofid dros ansawdd y rhwydwaith llwybr - mae canfyddiadau'n cynnwys bod hanner y llwybrau o safon anfoddhaol a thraean yn annefnyddiadwy - a thu draw i'r cyfnod amser paratoi mapiau mynediad agored. Bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar gynnydd mewn

gweithredu'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys sut mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r arian grant a pha mor dda y mae rhannau o'r sector gyhoeddus wedi gweithio gyda'i gilydd. Felly, mae rôl sefydliadau megis Bwrdd Croeso Cymru yn cael ei ystyried. Bydd yr astudiaeth yn archwilio'r cynnydd wrth weithredu'r ddeddfwriaeth, yn cynnwys sut mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r arian grant a pha mor dda mae gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus wedi gweithio gyda'i gilydd. Bydd yn gofyn am ddefnyddio holl rymoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn bod mor effeithiol â phosib.

**Cynllun Adfer Cefn Gwlad**

Mae'r cynllun Adfer Cefn Gwlad yn bwriadu cynorthwyo adferiad economi Cymru yn dilyn effeithiau'r clwy' traed a'r genau. Clustnododd Llywodraeth Cynulliad Cymru £65 miliwn i ariannu'r cynllun dros dair blynedd. O hwn, roedd £60 miliwn yn arian newydd, gyda'r £5 miliwn arall wedi ei ail-flaenoriaethu gan asiantaethau mewn ymateb i'r clwy'. Gweinyddwyd pob cyllideb gan gorff arweiniol, megis Awdurdod Lleol, Awdurdod Datblygu Cymru (WDA), Menter Coedwigaeth, Bwrdd Croeso Cymru a.y.b. Daeth y cynllun i ben yn haf 2004. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar y cymorth a ariannwyd yn gyhoeddus a gafwyd ac effeithiolrwydd ac effeithioldeb gweinyddu'r arian, gan gynnwys a ystyriwyd oblygiadau datblygu cynaliadwy yn effeithiol.

## Addysg a Hyfforddiant

**Gwella cyfranogiad a chwblhad mewn addysg uwch**

Mae'n ofynnol bod Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru, megis y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg ac Hyfforddiant i Gymru, yn gwneud ymdrech i gynyddu a lledu cyfranogiad, er budd cynhwysiad cymdeithasol. Mae gwella graddau cwblhau myfyrwyr yn her gyfochrog, ac mae nifer o dargedau perfformiad a dangosyddion perfformiad wedi eu gosod. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grantiau dysgu o fis Medi 2002, wedi eu cefnogi gan ryw £11 miliwn, ac fel rhan o'r strategaeth Ymgeisio yn Uwch, mae'n dynodi £2 filiwn y flwyddyn i ariannu pedwar consortiwm ehangu mynediad a Thaith Ymgeisio yn Uwch Cymru. Mewn perthynas â phatrymau cyfredol, a rhwystrau, a chyfranogi, bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar effeithiolrwydd camau i ehangu mynediad a gwella cyfraddau cwblhau, gan anelu at danlinellu esiamplau o arfer da. Bydd yn canolbwyntio ar dargedu mesuriadau i grwpiau cymdeithasol ac economaidd penodol, ac ar weithio cydlynol anogol ar gyfer darparwyr addysg a myfyrwyr.

**Ariannu cyfalaf ysgolion**

Mae'r Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (£46 miliwn ar gyfer 2003-04) wedi ei gysylltu'n uniongyrchol gyda'r targed Gwellcymru.com y dylai holl ysgolion Cymru fod mewn cyflwr ffisegol da erbyn 2010. Rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu cynlluniau rheoli asedau yn 2004. Bwriedir i'r awdurdodau lleol ddefnyddio'r grant i ariannu rhaglenni adeiladau ysgol a gwelliannau. Bydd yr astudiaeth hon yn edrych

ar sut y gwariwyd yr arian gan awdurdodau lleol a chymharu gwariant gyda lefelau angen. Byddai hefyd yn asesu pa mor dda mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro ac yn darparu arweiniad. Er mwyn cynnwys y ddau faes, byddai'r astudiaeth hon yn defnyddio'r grymoedd a fydd ar gael o dan y ddeddfwriaeth newydd.

**Iechyd ariannol sefydliadau addysg bellach**

Byddai hwn yn dibynnu ar y gwaith a wnaed gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, i fonitro a gorchwylio sefydliadau addysg uwch. Byddai'n amlygu materion arwyddocaol ar draws y sector, tu hwnt i gwestiynau cul o hyfywedd ariannol, megis y cyfle am effeithiolrwydd drwy rannu seilwaith, a byddai'n dilyn gwaith blaenorol yr ACC, megis caffael a rheoli ystadau. Gallai adroddiad o'r fath ddatblygu'n rhan o waith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfnodol.

## Datblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth

**Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a grantiau datblygu economaidd eraill**

Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) yn gynllun wedi ei ddatblygu ers tro sy'n darparu grantiau i gwmnïau ar gyfer buddsoddiadau creu gwaith na fyddai'n digwydd fel arall. Mae Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi datblygu trefniadau eraill a ddaeth i rym yn Ebrill 2004. Maent yn ffordd o weithredu mwy hyblyg gyda mwy o bwyslais ar werth ychwanegol a'r safon swyddi. Mae gwariant ar RSA wedi cynyddu'n arw wrth i gyfraddau grant gynyddu ac mae Llywodraeth y Cynulliad bellach yn cynnig premiwm am swyddi o safon uchel, cyfleusterau Ymchwil a Datblygu a swyddi a lenwir gan bobl nad oedd cynt yn weithredol yn y farchnad waith. Gweinyddir y cynllun yn ôl y gofyn ac ni cheir targedau ffurfiol. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd ac effeithioldeb y cynllun wrth fodloni ei hamcanion, ac os ydy'r cynllun yn cael y canlyniad yr hoffid ei weld o fewn yr ardaloedd a'r sectorau mwyaf anghenus. Byddai'n ceisio adolygu cyfraniad RSA i amcanion eang polisi Llywodraeth y Cynulliad yng nghyd-destun cynlluniau a mentrau tebyg, ac yn ystyried y gost weinyddu i'r ymgeisydd a Llywodraeth y Cynulliad fel ei gilydd.

**Bwrdd Croeso Cymru: gweithgaredd marchnata**

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn mynd trwy newid graddol yng ngraddfa ei weithgaredd marchnata, gyda chyllideb o £42 miliwn dros y tair blynedd hyd 2004-05, llawer ohono o ffynonellau Ewropeaidd. Ar yr un pryd, mae Cymru wedi cynyddu ei chyfran yn y farchnad dwristiaeth yn nhermau nifer ymwelwyr. Byddai'r astudiaeth hon yn defnyddio arbenigedd allanol er mwyn adolygu'r strategaeth farchnata a chynlluniau gwario cysylltiedig, rheoli cytundebau a threfniadau gwerthuso, a byddai'n asesu i ba raddau y mae'n gwireddu ei hamcanion. Gallai hefyd ystyried i ba raddau yr oedd y Bwrdd Croeso yn cydweithio ag Awdurdod Datblygu Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill er

mwyn hyrwyddo Cymru'n drefnus ac yn effeithiol dramor. Felly, efallai y byddai'n ystyried mesurau sydd yn mynd tu hwnt i nifer ymwelwyr.

**Rheoli traffig**

Mae'r adroddiad sydd ar y gweill ar welliannau a chynnal a chadw priffyrdd a thraffyrdd yn mynd i'r afael â threfniadau Llywodraeth y Cynulliad i gael y fath waith. I gydfynd â'r adroddiad hwnnw, byddai'n addas archwilio dylanwad y fath waith ar ddefnyddwyr. Bydda'r fath archwiliad yn dangos yn ei ymdriniaeth strategaeth Rhaglen Pum Mlynedd Llywodraeth y Cynulliad o ran Systemau Trafnidiaeth Ddeallus (ITS) o fuddsoddiad mewn seilwaith rheoli traffig Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r buddsoddiad yn anelu at wneud defnydd gwell o'r seilweithiau, ac yn cynnwys darparu canolfan reoli traffig newydd ac 'Arwyddion Neges Amrywiol'(VMS) diweddaraf. Byddai'r archwiliad yn asesu os ydy'r rhaglen ITS yn bodloni anghenion y defnyddwyr. Gellid ehangu'r astudiaeth o bosib i ystyried y rhyngweithio o gynlluniau priffyrdd a thraffyrdd gyda'r ddarpariaeth yn cael ei ariannu gan Grant Trafnidiaeth, megis cynlluniau parcio a theithio. Bydd y trosglwyddo arfaethedig o gyfrifoldebau rheoli traffig o awdurdodau'r heddlu i Lywodraeth y Cynulliad yn 2006-07 hefyd yn cael ei ystyried wrth bennu amseriad yr astudiaeth hon.

## Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Rhaglen Grantiau Digartrefedd a Phobl Heb Do Uwch eu Pennau**

Mae'r Rhaglen Grantiau Digartrefedd a Phobl Heb Do Uwch eu Pennau yn cyfrannu cyllid 100 y cant i brosiectau sector gwirfoddol sy'n darparu llety i bobl digartref a heb do uwch eu pennau, yn ddibynnol ar berfformiad boddhaol ac amlygrwydd o angen parhaol. Mae'r cyllid ar gyfer 2004-05 wedi cynyddu i £4.9 miliwn. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio trefniadau asesu a monitro ac os oedd prosiectau a gefnogwyd yn gwireddu'r amcanion a gynlluniwyd.

**Cefnogi Pobl**

Menter newydd ydy Cefnogi Pobl a ddaeth i fodolaeth ar draws y D.U. ar 1 Ebrill 2003, gan sefydlu fframwaith ariannu a gweinyddu newydd ar gyfer darpariaeth llety wedi ei selio ar gefnogi pobl fregus. Mae cyllideb Cefnogi Pobl yng Nghymru yn ystod 2004-05 bron yn £139 miliwn. Mae tua £81 miliwn ynghlwm â Grant Cefnogi Pobl a weinyddir gan awdurdodau lleol ac sy'n darparu arian ar gyfer yr henoed a'r sawl sy'n derbyn gwasanaethau gofal, a chyfrifoldeb gweinyddu'r grant wedi ei roi i'r awdurdodau lleol. Gweinyddir y £58 miliwn sy'n weddill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Grant Refeniw Cefnogi Pobl (SPRG), gan ddarparu'r holl fathau o wasanaethau cefnogi megis y sawl sydd ag anabledd dysgu neu wragedd sydd yn dianc rhag trais. Bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru drosglwyddo cyfrifoldeb SPRG i awdurdodau lleol yn 2006. Byddai'r astudiaeth yn archwilio gweinyddiaeth gyfan y cynllun, dosraniad a monitro gwariant, a'r canlyniadau hyd hynny.

## Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

**Cynyddu gweithgaredd corfforol a'i fuddiannau**

Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio cynlluniau wedi eu hanelu at gynyddu gweithgaredd corfforol, megis y rheini y sonnir amdanynt yn nogfen ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad, *Dringo'n Uwch*.. Bydd yn edrych ar fframwaith *Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw yng Nghymru* sydd yn cynnwys cynlluniau megis Chwaraeon y Ddraig. Bydd yn asesu llwyddiant ymdrechion gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Chwaraeon Cymru i gynyddu gweithgaredd corfforol, gyda phwyslais arbennig ar ymdrin ag allgauedd cymdeithasol, a chyfrannu at iechyd a daioni ar y cyfan.

**Bodlonrwydd cwsmer amgueddfa**

Tra bod gan Amgueddfeydd sawl rôl bwysig i'w chwarae ym mywyd diwylliannol Cymru, mae eu llwyddiant wrth gyflawni eu hamcanion uwch drwy ddenu'r cyhoedd, yn ddibynnol ar gynnig 'diwrnod allan da'. Byddai'r astudiaeth hon yn defnyddio technegau ymchwil marchnad i asesu safon 'profiad yr amgueddfa' yng Nghymru. Byddai'n cynnwys sylwadau defnyddwyr amgueddfeydd i nodi os ydy sefydliadau yn darparu'r gwasanaethau gofynnol a'r cyfle am welliannau.

**Canolfan Mileniwm Cymru**

Mae'r Ganolfan yn cael ei hadeiladu ym Mae Caerdydd a'i diben fydd bod yn ffenest siop i'r Celfyddydau yng Nghymru. Bydd yn gartref i Opera Cenedlaethol Cymru ac yn darparu cyfleusterau ar gyfer ystod o sefydliadau diwylliannol eraill. Roedd gan y Ganolfan gost cyfalaf arfaethedig o £75 miliwn, sydd wedi cynyddu bellach i £104 miliwn. Daw tua £43 miliwn o hwn o'r sector gyhoeddus a £10 miliwn o gronfa'r loteri. Roedd yr amcangyfrifon o gost yn afrealistig oherwydd na chynhwyswyd eitemau, megis tir. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau a bwriedir agor y Ganolfan ar ddiwedd 2004. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor dda y rheolwyd y prosiect i sefydlu'r Ganolfan, a pha mor dda y bydd y Ganolfan yn gweithredu yn ystod ei blwyddyn gyntaf neu oddeutu, yn arbennig yn nhermau cost gweithredu a nifer yr ymwelwyr. Felly, er mwyn caniatáu hyn, amseriad gorau'r astudiaeth hon fyddai diwedd 2005-06, neu ar ddechrau 2006-07.

## Gweinyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Caffael adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol**

Yn 2001, penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol ohirio adeiladu'r siambr drafod newydd yn dilyn cynnydd sylweddol yn yr amcangyfrif o'r gost, gan ddiddymu cyflogaeth y pensaer. Ers hynny, cytunwyd ar gytundeb cost sefydlog, un swm gwerth £41 miliwn (heb gynnwys TAW; canran i gelfyddyd, gosodiadau, ffitiadau a chelfi a gyflenwyd gan gleientiaid, offer TGCh a darlledu, ffioedd rheoli prosiect proffesiynol a ffioedd proffesiynol arall).

Byddai'r astudiaeth yn adolygu caffael a gwaith adeiladu'r adeilad, sydd ar hyn o bryd i'w agor yn Awst 2005. Ni fyddai'r archwiliad yn dechrau nes bod yr adeilad yn weithredol, ac felly gellid ei ohirio os ydy'r prosiect yn llithro. Byddai'r archwiliad yn gwneud defnydd llawn o rag-adolygiadau o'r prosiect, gan gynnwys adroddiad blaenorol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Trefniadau Llety Cynulliad Cenedlaethol Cymru.* (Tachwedd 2000) yn ogystal â chymharu'r broses gyda'r gwaith adeiladu a chaffael Adeilad Seneddol yr Alban yng Nghaeredin.

**Effeithiolrwydd ynni yn ystâd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff wedi eu Noddi gan y Cynulliad.**

Tra bod costau gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn gymharol isel yn y blynyddoedd diweddar, mae prisiau ynni yn codi'n gyflym ac yn golygu bod colli cyfle am effeithiolrwydd ynni yn risg gynyddol i werth am arian. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad a chyrff a noddir rôl arweiniol yn y defnydd effeithiol o ynni. Mae hyn i ddangos defnydd da o arian cyhoeddus ac i ddarparu enghraifft o weithredu busnes cynaliadwy i wasanaethau eraill, busnesau a gweddill y wlad ar yr un pryd. Byddai'r archwiliad hwn yn defnyddio dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth Effeithiolrwydd Ynni a Dŵr Addysg Uwch. Yn benodol, byddai'n defnyddio arbenigwyr allanol i nodi mesuriadau ymarferol, wedi eu prisio a fyddai'n arwain at arbedion mewn arian ac ynni.

## Astudiaethau trawsbynciol

**Gwasanaethau i blant**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwario tua £25 miliwn y flwyddyn ar wasanaethau i blant. Mae wedi dewis y dull trawsbynciol ar gyfer darpariaeth gyda saith amcan craidd i blant, a nifer o strategaethau a mentrau yn gysylltiedig â phlant. (er enghraifft Plant yn Gyntaf). Mae'r rhain oll yn dibynnu ar gyd weithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r GIG, llywodraeth leol (gwasanaethau addysg a chymdeithasol) a'r sector gwirfoddol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penodi Comisiynydd Plant gyda chyfrifoldeb eang yn amrywio o hyrwyddo lles plant yng Nghymru ac ymchwilio materion o destun pryder. Mae Fframwaith Gwasanaeth Genedlaethol i Blant hefyd yn cael ei datblygu. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio materion megis pa mor effeithiol mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn delio gyda thlodi plant, os ydyw'n gwrando ar blant, pa mor effeithiol y mae sectorau a sefydliadau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd o dan nawdd Llywodraeth y Cynulliad, a gwersi ar sut i wella gweithrediad polisïau trawsbynciol yng Nghymru, megis yn nhermau mentrau, rhannu cyllidebau ac osgoi dyblygiadau.

**Datblygu Cynaliadwy: gwneud penderfyniadau a mesur perfformiad**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd statudol unigryw i hyrwyddo datblygu cynaliadwy: hyrwyddo datblygiadau sydd yn ateb gofynion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu gofynion eu hunain. Mae hyn yn cynnwys ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac

amgylcheddol ym mhob peth a wna'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad, a dylanwadu ar sefydliadau eraill i wneud yr un peth. Mae Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004-07) wedi nodi y gall Llywodraeth y Cynulliad wneud gwahaniaeth drwy " Wneud i'n harian siarad": gan sicrhau bod gwariant Llywodraeth y Cynulliad a gwariant cyhoeddus arall yn canolbwyntio ar gyflawni datblygiad cynaliadwy. Ystyrir Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol yn arweinydd ym maes trefniadau llywodraethu datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, ceir peth pryder ynglŷn â faint yn union o newid sydd wedi deillio o ymdrechion sylweddol Llywodraeth y Cynulliad. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio penderfyniadau corfforaethol datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad a threfniadau mesur perfformiad. Byddai'n cyd-fynd ag astudiaeth gyfredol Comisiwn Archwilio Cymru ar drefniadau penderfyniadau corfforaethol mewn llywodraeth leol. Byddai'r astudiaeth yn nodi enghreifftiau o'r hyn sydd wedi newid o ganlyniad i ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad, a byddai'n tanlinellu rhwystrau i atal cynnydd. Un canolbwynt o bosib, fyddai adolygiad o sut y mae datblygu cynaliadwy yn cael ei ystyried mewn achosion busnes. Gallai'r astudiaeth hon arwain at gyfres o archwiliadau ar sut yr ystyrir datblygu cynaliadwy mewn meysydd megis caffael, rheoli asedau a chynnal a chadw, a gwaredu.

## Archwiliadau traws-sector cynhwysfawr

Byddai'r ddau archwiliad hyn yn defnyddio amrediad grymoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys gwaith a wnaed trwy gynlluniau archwilio cyrff iechyd lleol a llywodraeth leol, gwaith wedi ei fandadu drwy gynlluniau archwilio ac arolygiadau, a grymoedd mewn perthynas â Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella. Byddant hefyd yn defnyddio amrediad o ffynonellau ariannu. Bydd angen iddynt fod yn destun ymgynghoriad tu hwnt i'r Pwyllgor Archwilio. Bydd angen i drefniadau adrodd yn ôl fynd tu hwnt i'r Pwyllgor Archwilio, gydag adroddiadau ar wahân efallai yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cyrff lleol.

**Gweithredu Wanless**

Roedd yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Wanless) yn adolygiad amrediad eang o'r GIG yng Nghymru. Daeth i'r casgliad nad oedd hi'n addas ceisio adeiladu lle i gyfateb â'r gofyn. Felly gwnaed argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad a oedd yn canolbwyntio ar reoli gofyn, defnydd mwy effeithiol o le mewn bodolaeth ac ail-gyfluniad o'r lle hwnnw, megis drwy gael unedau mwy yn hytrach na rhai llai. Byddai'r archwiliad hwn yn canolbwyntio ar yr ail a'r drydedd o'r rhannau hyn. Achos bod hi'n bwysig cysylltu gwasanaethau'r GIG â Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y testun hwn angen defnyddio amrediad llawn grymoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn bod mor effeithiol â phosib. Bwriad yr archwiliad cyfan fyddai cwmpasu gweithrediad yr ymateb i Wanless o'r cyfnod cynllunio hyd at gwblhau. Bydd angen iddo felly gael ei wneud mewn oddeutu tri cham.

**Rheoli Gweithlu ac Effeithiolrwydd yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Ceir arwyddion ar draws y nifer o rannau o’r sector gyhoeddus yng Nghymru - nad yw’r adnodd pwysicaf sydd ar gael yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru - y gweithlu - mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd absenoldeb salwch, bylchau sgiliau a diffygion mewn effeithiolrwydd rheoli. Byddai’r archwiliad hwn yn ceisio nodi'r prif rwystrau i effeithiolrwydd gwell y gweithlu, megis y diffyg gwybodaeth i nodi’n llawn a mynd i’r afael â bylchau sgiliau.  Gallai hyn wedyn roi sail ar gyfer gwaith dilynol, a allai gynnwys meintioliad mwy o’r problemau hyn.  Bydd gofyn defnyddio holl amrediad grymoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn astudio’r broblem hon yn gynhwysfawr, gydag agwedd aml gam.

# Atodiad B: Gwaith a chynlluniau'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru

Mae gwaith y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn ymwneud ag awdurdodau lleol unedol, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau parciau cenedlaethol, ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd lleol y Gwasanaeth Iechyd, awdurdodau'r heddlu, byrddau prawf, awdurdodau tân ac ambell sefydliad addysg bellach ac uwch. Mae'n cynhyrchu amrediad eang o allgynnyrch, ar lefel leol ac ar draws Cymru fel ei gilydd. Mae'r atodiad hwn yn crynhoi gwaith y Comisiwn sydd ar y gweill a chynlluniau cyfredol ar gyfer gwaith a wneir o 1 Ebrill 2005. Nid yw'n cynnwys gwaith a wnaed gan archwilwyr a benodwyd pan fo rhain yn gwmnïau allanol. Mae cwmnïau o'r fath yn cyflenwi tua thraean o holl waith y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn nhermau sylwadau ar gyfrifon, cynlluniau archwilio a Llythyrau Archwilio Blynyddol. Tra bod y cwmnïau yn gweithio dan drefn y Comisiwn, maent yn gyfrifol am fodloni gofynion cyflenwi a phroffesiynol.

## Gwaith sydd ar y gweill

**Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol**

- Cynlluniau Rheoli Asedau
- Adfywio
- Celfyddydau a Diwylliant
- Gallu rheoli ac effeithiolrwydd
- Cynaliadwyedd
- Ffocws Cwsmer
- Cynllunio gweithredu
- ECLIPPS (Rhagoriaeth, Cymunedau, Arweiniad, Torri tir newydd, Cynlluniau, Perfformiad a Strwythur)

**Astudiaethau Cenedlaethol (Cymru'n unig)**

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion- adolygiad sylfaenol
- Gweithredu Cytundeb yr Arbenigwr yng Nghymru

**Astudiaethau Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)**

- Lleihau Effaith Camddefnyddio Cyffuriau ar Gymunedau
- Cymdogaethau Trosedd Uchel ac Anrhefn Uchel
- Proffiliau Ardaloedd Lleol
- Moderneiddio'r Gwasanaethau Tân ac Achub - Archwiliad cadarnhad
- Cost Gweinyddu Treth y Cyngor a Budd-daliadau
- Ansawdd data yn y Gwasanaethau Tân a'r Heddlu

**Gwaith wedi ei fandadu gan archwilwyr a benodwyd**

- Sicrhau Gwelliannau mewn Gofal Iechyd a Chymdeithasol
- Hygrededd Data
- Portffolio Ysbyty Dwys Cymal V (archwilio Llawdriniaeth Dydd, Damwain ac Argyfwng a staffio Nyrsys ar y ward)

**Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff archwilio ac arolygu eraill**

- Gofal symudol a Llawdriniaeth Dydd (gyda Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru)
- Yr ail o adolygiadau ar y cyd o wasanaethau cymdeithasol (Gydag Arolygaeth Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru)
- Arolygiadau Awdurdodau Addysg Lleol ar y cyd ag Estyn

**Papurau thematig**

- Stiwardiaeth a Rheolaeth mewn Llywodraeth Leol
- Gwasanaethau Patholeg
- Gwasanaethau Therapi'r GIG
- Rheoli Ariannol y GIG
- Adfywio
- Cymharu Asesiadau Perfformiad Cynhwysfawr â Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella
- Rheoli'r Trysorlys mewn Llywodraeth Leol
- Caffael
- Gwasanaethau Cynllunio

## Gwaith a fwriedir ei ddechrau cyn Ebrill 2005

- Gweithrediad Wanless (fel rhan o archwiliadau cynhwysfawr traws-sector a soniwyd amdanynt yn y brif ddogfen)
- Llwyth gwaith dewisol y GIG: Adolygiad Rheoli a Lleoedd
- Adolygiad o weithrediad Clefyd Coronaidd y Galon NSF (ar y cyd gydag Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru)
- Prawf methodoleg adolygu newydd er mwyn cefnogi gwelliant yn y gwasanaeth iechyd a gofal (TBC)
- Dilyniant adolygiad o wasanaethau clefyd y siwgr yng Nghymru
- Ansawdd data Timau Ieuenctid Tramgwyddus
- Arolygiad o Landlordiaid Cymdeithasol a gofrestrwyd
- Adolygiad o effeithiolrwydd mewn Llywodraeth Leol

## Cynllunio ar gyfer gwaith i ddechrau ar ôl 1 Ebrill 2005

Mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn cynhyrchu cynlluniau yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol i ddechrau yn y flwyddyn ddilynol. Mae'r cynlluniau yn cael eu gwneud yn dilyn ymgynghori gyda llywodraeth leol, cymdeithasau staff llywodraeth leol ac eraill â diddordeb. Oherwydd amseru'r broses hon , nid yw'n bosib manylu ar restr cynigion ar gyfer gwaith a fydd yn dechrau yn 2005-06.